# CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 2 Mai 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | S.Yelland, R.Sparks, J.Curtice, C.Holley a/ac A.Dacey |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | M.Shaw, A.Thomas P.Rhyder, S.Burford, I.C.Williams, H.Thomas a/ac T.Rees |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni datganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 06/12/22 a 28/02/23 fel cofnod cywir o'r gweithrediadau.

4. **Y DIWEDDARAF AM BROSIECT PENTRE AWEL**

   Rhoddwyd cyflwyniad PowerPoint i'r Aelodau gan Sharon Burford, Rheolwr Prosiect ar gyfer Pentre Awel yn eu hysbysu o drosolwg o'[r cynnydd a wnaed a statws Prosiect Pentre Awel fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

   Roedd yr Aelodau am wybod pwy fyddai'n rhedeg yr elfen hamdden ym Mhentre Awel a sut byddai swyddi'n cael eu creu ym Mharth 1 a phwy fyddai'r cyflogwr.

Dywedodd Swyddogion mai Cyngor Sir Gâr fydd yn cynnal Parth 1 ac felly'r elfen hamdden. Nid yw'r economaidd atgyweirio Canolfan Hamdden Llanelli, mae angen adeiladu un newydd fel rhan o'r rhaglen gyfalaf, a'r penderfyniad oedd y byddai hyn yn dod i Bentre Awel.

Dywedodd Swyddogion mai'r ffocws yw sut i weithio gyda'r bwrdd iechyd i edrych ar y cyn Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a'i wneud yn fwy effeithiol. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gellid efallai annog pobl sy'n mynd i ardal adsefydlu clinigol (ffisiotherapi) i symud ar draws y coridor i ddod yn fwy annibynnol a chymryd rheolaeth dros eu rhaglen adsefydlu corfforol eu hunain. Dywedodd Swyddogion y byddai'r busnesau'n rhai preifat, wedi'u sefydlu gan y prifysgolion neu drwy ymchwil clinigol gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Byddai Swyddogion yn disgwyl busnesau deillio ond hefyd annog busnesau ar draws yr ardal ehangach, gan weithio gyda thimau adfywio economaidd mewnol a darparu cefnogaeth arbenigol o ran pethau fel eiddo deallusol.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

## 5. <u>ADRODDIAD UCHAFBWYNTIAU BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE</u>

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r Aelodau yn ymwneud ag Adroddiad Amlygu Bargen Ddinesig Bae Abertawe a darparodd Phil Ryder rhai uchafbwyntiau allweddol i'r aelodau fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.
Yn dilyn y diweddariad, roedd aelodau am wybod am y risgiau i isadeiledd digidol os nad yw partneriaid y sector cyhoeddus yn blaenoriaethu cyflwyno a mabwysiadu isadeiledd digidol ac a oes problem mewn gwirionedd ar hyn o bryd.

Eglurodd Swyddogion nad oes unrhyw broblem gyda'r partneriaid ond mae natur digidol yn golygu bod risg i raglenni gan eu bod yn dibynnu'n drwm ar y sector preifat i gyflwyno gwelliannau isadeiledd digidol ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn golygu os oes unrhyw broblem yn effeithio ar y sector preifat i arafu neu stopio pethau ar draws y rhanbarth, yna gallai effeithio ar y rhaglen. Fodd bynnag, nid yw'n broblem ar hyn o bryd.

Roedd yr Aelodau am wybod am effaith gyffredinol chwyddiant ar gostau adeiladu mewn perthynas â'r holl brosiectau. Dywedodd Swyddogion eu bod wedi asesu'r bwlch ariannu o ddiwedd y llynedd ac y byddant yn rhoi diweddariadau ar y prosiectau'n rheolaidd.

Eglurodd Swyddogion hefyd fod y prosiectau hyn wedi'u rheoli drwy ystod o weithgareddau, bod yr awdurdodau wedi darparu peth cyllid ychwanegol a bod rhywfaint o weithgarwch peirianegol wedi'i wneud. Dywedodd Swyddogion nad oes dim wedi'i dynnu o'r cynllun hyd yn hyn sydd wedi effeithio ar yr amcanion neu gyflwyno'r cynllun oherwydd peirianneg gwerth.

Eglurodd Swyddogion pe bai costau chwyddiant yn gwaethygu yna gall fod posibilrwydd rhesymoli rhai o'r targedau i gyflawni nodau ac amcanion y fargen, ond nid yw'r prosiectau ar y cam hwnnw.

Eglurodd Swyddogion hefyd fod gweithdrefn newid wedi'i roi ar waith. Pe bai angen iddynt ddod ag unrhyw beth drwy lywodraethu rhanbarthol i newid rhywbeth, byddai hynny'n newid unrhyw un o'r pethau i'w darparu.

Dywedodd Swyddogion fod proses ar waith i ofyn am gymeradwyaeth ar gyfer lliniariadau y tu hwnt i beirianneg gwerth neu gyllid ychwanegol gan ddarparwyr arweiniol ond nid oes angen yr un o'r rhain bellach.

Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd y bu peth cynnydd yng nghyllid Wherefor a bod hyn wedi'i ddefnyddio i helpu i liniaru costau. Mae cyllid Wherefor yn dod i ben yn fuan, a dywedodd swyddogion eu bod wedi defnyddio'r cyllid ychwanegol, lle mae hwnnw wedi bod ar gael, i liniaru'r pwysau.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

## 6. ACHOS BUSNES PORTFFOLIO BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Darparwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar yr achos busnes portffolio, ynghyd â chefndir byr, gan Ian Williams, Rheolwr Datblygu Portffolio, a roddodd y diweddaraf iddynt ar Achos Busnes Portffolio'r Fargen Ddinesig fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Eglurodd Swyddogion y cynhyrchwyd yr achos busnes portffolio gwreiddiol ym mis Awst 2020 a'i fod yn ofyniad gan y Llywodraeth.

Mae'n seiliedig ar y prif delerau gwreiddiol ar gyfer y Fargen Ddinesig a'r prosiectau a'r rhaglenni a gafodd eu dethol ar gyfer honno.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr Achos Busnes Portffolio wedi'i ddatblygu'n unol â model achos 5 Trysorlys ei Fawrhydi a'i fod wedi mynd trwy adolygiad trylwyr gyda'r Llywodraeth, a'i fod wedi'i gymeradwyo'n dilyn hynny gyda’r gyfran gyllid gyntaf.

Eglurwyd y bydd yr achos busnes yn destun adolygiad blynyddol. Caiff ei ddiweddaru gan Swyddfa Rheoli Prosiectau (SRhP) ar gyfer y fargen ddinesig ac yna’i gyflwyno nôl i'r llywodraeth i weithredu fel sbardun ar gyfer rhyddhau cyllid y fargen ddinesig.

Dywedodd Swyddogion mai hwn yw 4ydd iteriad yr achos busnes a'i fod wedi pasio drwy'r bwrdd rhaglenni a Chyd-bwyllgor y Fargen Ddinesig fis diwethaf. Mae'r wybodaeth yn yr achos busnes yn seiliedig ar wybodaeth fonitro chwarter 3 sydd hefyd wedi mynd drwy'r byrddau llywodraethu perthnasol.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan Aelodau ar ôl y cyflwyniad

7. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**